



SEFYDLIAD DYSGU A GWAITH
LEARNING AND WORK INSTITUTE

CYNLLUN STRATEGOL 2018-23

Mawrth 2018

Sefydliad Dysgu a Gwaith

Noddwr: Ei Huchelder Y Dywysoges Frenhinol | Prif weithredwr: Stephen Evans
Cwmni cyfyngedig trwy warrant a gofrestrwyd yn Lloegr a Chymru
Rhif cofrestru 2063322 | Rhif cofrestru elusen 100277
Cyfeiriad cofrestredig: 4th floor, Arhem House, 31 Waterloo Way, Leicester, LE1 6LP



INVESTORS
IN PEOPLE

Silver
Until 2020



Cyhoeddwyd gan efydliad Dysgu a Gwaith
4th Floor, Arnhem House, 31 Waterloo Way, Caerlŷr, LE1 6LP
Rhif cofrestru 2063322 | Rhif cofrestru elusen 100277

www.learningandwork.org.uk

@LearnWorkCymru

@LearnWorkUK

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhychu, copio neu drawsyrnu'r cyhoeddiad hwn heb ganiatâd ysgrifenedig y cyhoeddwr, heblaw yn unol â darpariaethau Deddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988, neu dan delerau unrhyw drwydded sy'n caniatáu copio cyfyngedig a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth Trwyddedu Hawlfraint

Amdanom Sefydliad Dysgu a Gwaith

Mae'r Sefydliad Dysgu a Gwaith yn sefydliad polisi, ymchwil a datblygu annibynnol sy'n ymroddedig i ddysgu gydol oes, cyflogaeth lawn a cynhwysiant.

Ymchwiliwn yr hyn sy'n gweithio, datblygu ffyrdd newydd o feddwl a gweithredu dulli au newydd. Gan weithio gyda phartneriaid, rydym yn trawsnewid profiadau pobl o ddysgu a chyflogaeth. Mae'r hyn a wnawn o fudd I unigolion, teuluoedd, cymunedau a'r economi yn ehangach.

Ein gweledigaeth yw cymdeithas lewyrchus a theg lle mae dysgu a gwaith yn rhoi cyfleoedd i bawb wireddu eu potensial a'u huchelgais ar hyd bywyd.

Cyd-destun a heriau

Rydym yn byw mewn gwlad o gryfderau mawr; un o'r cyfoethocaf yn y byd, gyda chyfraddau uchel o gyflogaeth, diwydiannau sy'n arwain y byd, a rhai o'r prifysgolion gorau.

Fodd bynnag, mae gormod o bobl heb fod yn rhannu yn y ffyniant hwn, yn rhannol oherwydd mynediad anghyfartal i gyfleoedd i ddysgu a gweithio. Sgiliau llythrennedd a/neu rifedd isel sydd gan naw miliwn o oedolion; mae'r rhai o grwpiau economaidd-gymdeithasol uwch ddwywaith mor debyg o gymryd rhan mewn dysgu; mae miliwn yn llai o oedolion yn cymryd rhan mewn dysgu a gyllidir yn gyhoeddus nag yn 2010; ac mae cyfraddau cyflogaeth yn amrywio ar draws y wlad ac yn ôl grŵp; er enghraifft mae cyfradd cyflogaeth pobl anabl 30 pwynt canran yn is na'r gyfradd ar gyfer pobl heb fod yn anabl.

Mae'n hanfodol mynd i'r afael â'r anghydraddoldeb hwn: mae dysgu yn arwain at fwy o ddysgu ac mae ganddo ystod eang o fanteision economaidd a chymdeithasol ar gyfer pobl, cyflogwyr a chymdeithas. Mae heriau allweddol yn awr yn ei gwneud hyd yn oed yn fwy hanfodol byth i adeiladu cymdeithas dysgu gydol oes gyda mynediad teg i waith ansawdd uchel.

- **Ysgogi ffyniant.** Cynhyrchiant yw peiriant twf ac mae'n hanfodol ar gyfer cynnydd mewn safonau byw. Ond mae cynhyrchiant draean yn is yn y Deyrnas Unedig nag yw yn yr Unol Daleithiau, Ffrainc a'r Almaen. Bu twf mewn cynhyrchiant yn wan ers 2008 a rhagwelir y bydd yn parhau felly. Mae'n debyg y bydd incymau real yn cymryd cyhyd â 20 mlynedd i ddychwelyd i'r brig a gyrhaeddwyd yn 2008. Gall dysgu a gwaith helpu i adeiladu economi gyda chynhyrchiant uchel a safonau byw uchel. Profwyd y cysylltiadau rhwng sgiliau a chynhyrchiant, yn ogystal â safonau byw; ar gyfartaledd po fwyaf a ddysgwch, yr uchaf fydd eich tâl. Cyflogaeth yw prif ffynhonnell incwm y rhan fwyaf o bobl ac mae cynnydd mewn cyflogaeth yn hybu twf;
- **Cymdeithas deg a chynhwysol.** Mae cysylltiad agos rhwng cyfleoedd bywyd â chefnidir teuluol – gall ble y dewch ohono gyfyngu'r hyn y gallwch ei gyflawni, yn rhannol oherwydd y cysylltiad agos rhwng cyrhaeddiad addysgol rhieni a'u plant. Rhagwelir y bydd anghydraddoldeb incwm, a fu'n sefydlog dros y ddegawd diwethaf ar lefelau hanesyddol uchel, yn cynyddu. Mae hyblygrwydd y farchnad lafur yn galluogi mwy o bobl i weithio ond gall deimlo fel stryd un-ffordd os yw o fudd i

gyflogwyr ac yn creu ansicrwydd i bobl. Gall dysgu a gwaith helpu pobl i fynd mor bell ag y bydd eu talentau a'u hymdrech yn mynd â nhw, a gall dysgu drwy gydol bywyd hybu symudedd a chynhwysiant cymdeithasol. Mae angen i ni gefnogi datblygu gwaith ansawdd uchel, helpu pobl i sicrhau cynnydd ac adeiladu eu gyrfaoedd, a chyfuno hyblygrwydd yn effeithlon gyda sicrwydd.

- **Iechyd, llesiant a chynhwysiant cymdeithasol.** Mae amledd cyflyrau iechyd hirdymor wedi cynyddu, yn gysylltiedig â phoblogaeth heneiddiol. Mae cynnydd mewn unigrwydd ac ynysigrwydd yn effeithio ar lesiant pobl. Mae cyfranogiad mewn cymdeithas, o bleidleisio i ymgysylltu mewn cymunedau lleol, yn amrywio ar draws y wlad ac yn ôl grŵp demograffig. Mae dysgu, yn cynnwys dysgu fel teulu ac yn y gymuned, a gwaith o fudd i iechyd a llesiant, ac yn hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a dinasyddiaeth egnïol.

Mae tri symudiad seismig yn cynyddu pwysigrwydd dysgu a gwaith ymhellach:

- **Newid economaidd byd-eang.** Mae technoleg yn datblygu'n gyflym ac mae'r byd yn gynyddol gysylltiedig. Mae dysgu yn helpu pobl i addasu i'r newidiadau hyn a manteisio ohonynt. Mae technoleg hefyd yn newid y ffyrdd y mae pobl yn dysgu a chysylltu gyda gwaith;
- **Newid demograffig.** Rydym yn byw mewn cymdeithas sy'n heneiddio, gan ddod â galw cynyddol am wasanaethau iechyd a chynnydd mewn cyfrifoldebau gofalu. Bydd angen i bobl ddiweddarau eu sgiliau drwy gydol gyrfaoedd sy'n parhau am hyd at 50 mlynedd, ynghyd ag ymagwedd fwy hyblyg at waith. Gall dysgu gefnogi iechyd drwy wella llesiant a chynhwysiant cymdeithasol; a
- **Lle Prydain yn y byd.** Mae'r newidiadau hyn, ynghyd â'r Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd, yn ei gwneud yn hanfodol datblygu talent cynhenid drwy ddysgu, sgiliau a chyflogaeth. Bydd hefyd angen i ni sicrhau system ymfudo sy'n diwallu ein hanghenion sgiliau, a dylunio buddsoddiad a dulliau newydd i gymryd lle cronfeydd yr Undeb Ewropeaidd.

Mae'r rhain yn heriau mawr a newidiadau mawr. Yn y pen draw, maent am sut ydym yn creu ac yn rhannu ffyniant, a helpu pobl i addasu i newid a chymryd rhan lawn mewn cymdeithas. Mae mynediad gwell i gyfleoedd dysgu a gwaith wrth galon adeiladu cymdeithas gynhwysol, lewyrchus a theg lle gall pobl fod yn ddinasyddion egnïol ac arwain bywydau sy'n bodloni.

Sut y gwnawn wahaniaeth

Ein Cenhadaeth

- Rydym yn sefydliad polisi, ymchwil a datblygu annibynnol sy'n ymroddedig i hyrwyddo dysgu gydol oes, cyflogaeth lawn a chynhwysiant.

- Ymchwiliwn yr hyn sy'n gweithio, dylanwadu ar bolisi, datblygu ffyrdd newydd o feddwl, a helpu i weithredu ymagweddau newydd.
- Gan weithio gyda phartneriaid, ysbrydolwn bobl i ddysgu a helpu i drawsnewid profiadau pobl o ddysgu a chyflogaeth.
- Mae'r hyn a wnawn o fudd i unigolion, teuluoedd, cymunedau a'r economi yn ehangach.

Ein huchelgais yw:

- **Dinasyddion egniol a chymunedau iach:** helpu i adeiladu cymunedau mwy bywiog, goddefgar, diogel ac iach drwy gyfranogiad mewn dysgu a gwaith.
- **Cydraddoldeb a chynhwysiant ar gyfer cyfiawnder cymdeithasol a chyfleoedd bywyd:** cymdeithas lle mae pawb yn cael cyfle i ddysgu, meithrin sgiliau a gweithio beth bynnag eu cefndir.
- **Cyflogaeth lawn a gwaith ansawdd uchel:** sicrhau fod pawb a all weithio yn cael cyfle i wneud hynny a chael cynnydd yn y gwaith, gyda chefnogaeth dda ar gyfer pawb.
- **Cynhyrchiant uwch ar gyfer economi cryfach:** hybu twf economaidd, cynhyrchiant a busnesau llwyddiannus drwy welliannau mewn dysgu a chymorth cyflogaeth.

Cafodd ein gwaith ei drefnu i'r blaenoriaethau dilynol, sydd â ffocws ar ddatblygu polisi ac ymarfer sy'n gweithio i bobl a chymunedau:

- **Dysgu gydol oes.** Mae dysgu gydol oes, am unrhyw ddiben a heb ddiben, yn gwella gwaith, iechyd, llesiant a dinasyddiaeth egniol. Mae llawer o ffyrdd i bobl ddysgu, gyda dysgu fel teulu a dysgu yn y gymuned yn hanfodol i lawer. Eto mae cyfranogiad mewn dysgu yn anghyfartal ac wedi gostwng. Byddwn yn canolbwyntio ar gyflwyno'r achos dros gyfranogiad mewn dysgu ar gyfer oedolion, yn cynnwys drwy'r Wyl Dysgu yn Lloegr a'r Wythnos Addysg Oedolion yng Nghymru, a datblygu polisi ac ymarfer i gyflawni hyn.
- **Cyflogaeth a nawdd cymdeithasol.** Dylai pawb a all weithio gael cyfle i wneud hynny, eto mae diweithdra is mewn gormod o grwpiau ac ardaloedd. Mae pobl angen cefnogaeth gan amrywiaeth o wasanaethau i'w helpu i'r gwaith, a dylai'r system nawdd cymdeithasol gynorthwyo'r rhai sydd ei angen. Byddwn yn canolbwyntio ar gefnogaeth ar gyfer grwpiau, tebyg i bobl gydag anableddau, ac ardaloedd gyda chyflogaeth is. Byddwn hefyd yn edrych sut i sicrhau cefnogaeth ddigonol o nawdd cymdeithasol, yn cynnwys Credyd Cynhwysol a rôl amrywiaeth o wasanaethau wrth gynorthwyo pobl.

- **Sgiliau hanfodol a sgiliau bywyd.** Mae galluoedd fel llythrennedd, iaith, rhifedd, digidol, llythrennedd iechyd, dinasyddion a sgiliau ariannol yn sylfaenol i fywyd a gwaith. Eto mae naw miliwn o bobl yn brin o sgiliau swyddogaethol ac mae cyfranogiad mewn dysgu o'r fath wedi gostwng gan 25% mewn pum mlynedd. Byddwn yn canolbwyntio ar adeiladu cefnogaeth i bob oedolyn ennill y galluoedd hyn a datblygu ffyrdd newydd i ennyn diddordeb pobl a chyflawni dysgu.
- **Tâl, cynnydd a sicrwydd.** Dylai gwaith fod o ansawdd da a rhoi cyfleoedd cynnydd a datblygu. Eto mae pum miliwn o bobl ar gyflog isel, ac mae tri allan o bob pedwar o bobl oed ar gyflog isel ddeng mlynedd yn dal i fod ar gyflog isel heddiw. Byddwn yn canolbwyntio ar gefnogaeth i bobl ar gyflog isel i sicrhau cynnydd, yn cynnwys cyngor gyrfaoedd a gwella sgiliau, a datblygu a lledaenu arfer gorau ar ansawdd gwaith.
- **Prentisiaethau ac addysg dechnegol.** Dylai pawb a all fanteisio ar hynny fedru cael mynediad i brentisiaethau ac addysg dechnegol ansawdd uchel. Eto mae mynediad i brentisiaethau yn anghyfartal ac ansawdd prentisiaethau ac addysg dechnegol yn amrywio. Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd a mynediad i brentisiaethau, a sut y gall addysg dechnegol weithio i oedolion yn ogystal â phobl ifanc.
- **Cyfiawnder cymdeithasol a chynhwysiant.** Dylai pawb gael cyfle i fynd mor bell ag y bydd eu hymdrechion yn mynd â nhw – ni ddylai cefndir gyfyngu ar gyfleoedd bywyd. Eto mae symudedd cymdeithasol heddiw yn is nag mewn gwledydd eraill ac mae rhai grwpiau yn cael llai o gyfleoedd nag eraill. Byddwn yn canolbwyntio ar hyrwyddo dros well cefnogaeth ar gyfer grwpiau sy'n aml yn colli allan a rhoi cynnig ar ffyrdd newydd o gyflenwi hyn gyda phartneriaid.

Byddwn yn cyflawni ein blaenoriaethau strategol drwy:

- **Ymrwymiad sylfaenol i gydraddoldeb ac amrywiaeth:** byddwn yn ceisio deall, herio a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb mewn mynediad a sicrhau dysgu a gwaith.
- **Arweinyddiaeth gref:** mae ein hymddiriedolwyr a staff uwch angen ystod eang o sgiliau a phrofiad yn ogystal â chaniatáu ar gyfer yr amrywiaeth llais y mae ein gwaith yn ei gwmpasu.
- **Tîm o staff a chymdeithion proffesiynol a medrus:** rydym angen tîm cryf o staff a chymdeithion gyda phrofiad, hygrededd a pherthnasoedd ar draws ein holl flaenoriaethau.
- **Partneriaeth:** Byddwn yn meithrin cysylltiadau cryf gydag ystod eang o gefnogwyr a phartneriaid, yn cynnwys gweithio gyda rhwydweithiau rhyngwladol, i fod yn sail i'n gwaith.

- **Cyllid sicr ac amrywiol:** byddwn yn glir am y gwaith rydym eisiau ei wneud, y costau cysylltiedig a'r cyllidwyr a'r partneriaid y byddwn yn gweithio gyda nhw.
- **Mesur clir o effaith:** byddwn yn adeiladu mesuriadau clir o'r effaith rydym eisiau ei gyflawni yn ein holl waith, gan anelu i gynyddu ei effaith drwyddi draw.

Ein gwerthoedd yw:

- **Uchelgais:** llais blaenllaw a grymus dros ddysgu gydol oes a chynhwysiant economaidd.
- **Arbenigedd:** defnyddio meddwl seiliedig ar dystiolaeth i sicrhau newid byd go iawn mewn dysgu, sgiliau a chyflogaeth.
- **Annibyniaeth:** ymrwymiad diwyro i fod â meddwl agored a bod yn onest a theg.
- **Cydweithio:** rhoi partneriaeth a rhwydweithio wrth galon yr hyn a wnawn.

Mae'r pethau a wnawn yn cynnwys:

- Ymchwil a gwerthuso
- Cyngor ac arweiniad polisi
- Ystadegau a dadansoddiad
- Datblygu cynnyrch, treialu dulliau gweithredu newydd ac arloesi
- Ymgyrchoedd ac eiriolaeth
- Cynadleddau, digwyddiadau a hyfforddiant

LW Title 1 (Arial size 20, sentence case bold, brand orange)

LW Title 2 (Arial size 14, sentence case, bold, brand orange)

LW Title 3 (Arial size 13, sentence case, bold, brand orange)

LW Body text (Arial size 12)

LW Subtitle 4 (Arial size 12, sentence case, bold, brand blue)

LW Subtitle 5 (Arial size 12, sentence case, bold, brand grey)

Please be consistent with your choice of colour.

Using tables: LWTable1 (Arial size 12, Sentence case, bold, white)

Table Title (Arial size, sentence case, bold, brand blue, no spacing before table)

Table [insert number]: Name of table

Year	Enrolments	Learners	Enrolment	No. of providers using Innovation Code

Table text (Arial size 12, single spacing)

Base: description of base = [insert number]

Note: note about table

Note text (Arial size 10)

Case Study box (Arial size 12, bold)

Body text (Arial size 12)

Case Study box (Arial size 12, bold)

Body text (Arial size 12)

Case Study box (Arial size 12, bold)

Body text (Arial size 12)

Bullet points

- Please use square style bullets without indentations

Quotes

'Please use italics with only single quotation marks, without indentations'

L&W brand RGB colour codes

Colour	RGB code
Orange	R: 238 G: 126 B: 59
Blue	R: 38 G: 76 B: 89
Red	R: 160 G: 33 B: 64 (only to be used in graphs and charts)
Purple	R: 93 G: 55 B: 84 (only to be used in graphs and charts)
Green	R: 63 G: 191 B: 173 (only to be used in graphs and charts)
Grey	R: 77 G: 77 B: 77
Yellow	R: 246 G: 198 B: 92 (only to be used in graphs and charts)

Generally, these colours should not appear as a tint below 50%, especially in large flood of colour. Our palette is bright and bold, and tints of 50% or less can appear washed out and weak.